



Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
Care and Social Services Inspectorate Wales

Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru

Deddf Safonau Gofal 2000BSFERSS

Adroddiad Arolygu

This report is also available in English / Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn
Saesneg

Antur Waunfawr

Caernarfon

Math o Arolygiad – Sylfaenol
Dyddiad(au) yr arolygiad – 19 Medi 2016
Dyddiad cyhoeddi – 11 Tachwedd 2016

Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2016.

Cewch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau Trwydded Agored y Llywodraeth. Gellir gweld Trwydded Agored y Llywodraeth ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gellwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Rhaid i chi atgynhychu ein deunydd yn fanwl awwir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyl-destun

Crynodeb

Ynglŷn â'r gwasanaeth

Mae Antur Waunfawr wedi'i gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) i ddarparu gwasanaethau gofal cartref ar gyfer pobl hŷn dros 65 oed, oedolion iau gydag anableddau dysgu rhwng 18 a 64 mlwydd oed, ac oedolion iau rhwng 18 a 64 mlwydd oed sydd ag anableddau corfforol. Ar hyn o bryd, mae'r asiantaeth yn darparu gofal cartref ar gyfer un person ag anableddau dysgu.

Mae'r gwasanaeth yn cael ei gynnis yn unol â'r hyn a ddisgrifir yn y Datganiad o Ddiben a'r Canllaw i Ddefnyddwyr Gwasanaeth, dogfennau sydd ar gael i bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

Lleolir y darparwr, Antur Waunfawr, ym Mryn Pistyll, Waunfawr; Mr Stephen Goodwin yw'r unigolyn cyfrifol a enwebwyd. Mr Guto Wyn Hughes yw'r Rheolwr Cofrestredig ar gyfer y gwasanaeth gofal cartref.

Pa fath o arolygiad a gynhaliwyd?

Roedd hwn yn arolygiad sylfaenol, dirybudd a drefnwyd a oedd yn edrych ar y themâu ansawdd bywyd, ansawdd staffio, ac ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth.

Cynhaliwyd yr arolygiad ar 19 Medi 2016 rhwng 9.15am ac 11am.

Casglwyd gwybodaeth ar gyfer yr adroddiad hwn o'r ffynonellau canlynol:

- Trafodaethau â'r rheolwr cofrestredig, yr unigolyn cyfrifol, swyddog adnoddau dynol, aelod o staff, ac unigolyn a oedd yn defnyddio'r gwasanaeth.
- Gwnaethom edrych ar ffeiliau dau aelod o staff a chynllun gofal defnyddiwr y gwasanaeth.
- Gwelsom y Datganiad o Ddiben, y Canllaw i Ddefnyddwyr Gwasanaeth, arolwg sicrhau ansawdd, y matrices hyfforddiant, a nodiadau goruchwylio staff.
- Aethom i'r adeilad byw â chymorth, lle y darperir y gwasanaeth.

Beth mae'r gwasanaeth yn ei wneud yn dda?

Mae'r gwasanaeth yn parhau i ddarparu gofal o ansawdd da, sydd wedi'i deilwra i'r unigolyn.

Beth sydd wedi gwella ers yr arolygiad diwethaf?

Mae'r staff wedi gweithredu archwiliad sicrhau ansawdd gyda lluniau y gall y defnyddiwr gwasanaeth ei ddefnyddio'n hawdd. Mae hyn yn cynnwys ystod o wynebaw siriol a thrist sy'n galluogi'r defnyddiwr gwasanaeth i fynegi ei farn ei hun ynghylch y gwasanaeth.

Beth mae angen ei wneud i wella'r gwasanaeth?

Ni fu unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio i'w hadrodd.

Ansawdd Bywyd

Ar y cyfan, gwelsom fod pobl yn cael eu galluogi i fyw bywyd gweithredol, gan gadw cymaint o annibyniaeth ag sy'n bosibl, ac yn gallu gwneud dewisiadau mewn bywyd bob dydd.

Mae'r staff yn galluogi'r unigolyn i olchi ei ddillad ei hun a'u rhoi i sychu ar y lein ddillad. Mae'r unigolyn yn weithgar, yn mynd allan i gasglu ffrwythau ac yn creu crymblau, ac mae'n ymweld â siopau lleol. Mae'n mwynhau mynd i'r dref, bwyta ciniawau mewn tafarndai, a mynd allan i weld sioeau Cymraeg yn y theatr leol (megis John ac Alun).

Gwelsom fod y staff yn trin yr unigolyn ag urddas a pharch, ac yn gallu parchu ethnigrwydd a dewisiadau iaith gyntaf drwy siarad â'r unigolyn yn Gymraeg. Mae'r unigolyn yn rhan o'r gymuned, ac mae ffrindiau a theuluoedd yn ymweld; mae hwn yn rhoi ymdeimlad o berthyn, cynhesrwydd ac ymlyniad iddo.

Mae'r ffeil ofal yn canolbwyntio yn arbennig ar yr unigolyn, ac yn cynnwys ffotograffau, hoffterau, cas bethau a dewisiadau ynglŷn â ffordd o fyw yr unigolyn. Gwelsom fod y staff yn gyfarwydd iawn gydag anghenion yr unigolyn, ac yn gallu eu diwallu i safon uchel.

Gwelsom o'r ffeil ofal fod anghenion iechyd a lles yr unigolyn yn cael eu monitro a'u diwallu'n dda. Gwelsom dystiolaeth o fynychu apwyntiadau gyda meddyg a gweithwyr gofal iechyd eraill, a oedd yn cynnwys canlyniadau a chyfarwyddiadau manwl ar gyfer staff. Gwelsom fod pwysau yn cael eu cofnodi'n ofalus, a rhoddir cymorth i wneud dewisiadau bwyd iach.

Gwelsom fod yr unigolyn yn gallu dylanwadu ar ei ofal, a lleisio ei farn, drwy gymryd rhan yn yr adolygiad ansawdd gofal. Cafwyd ffurflen archwilio ddarluniadol gan asiantaeth eiriolaeth i hwyluso hyn, gan ddangos bod y gwasanaeth yn rhagweithiol o ran darparu ar gyfer anghenion unigol.

Ansawdd Staffio

Ar y cyfan, mae'r staff sy'n gweithio yn y gwasanaeth wedi bod yno ers blynyddoedd lawer, ac maent yn adnabod yr unigolyn sy'n derbyn gofal yn dda, ac mae ganddynt gydberthynas dda.

Mae'r ffeiliau staff yn dangos tystiolaeth bod gweithdrefnau recriwtio a chyflogaeth da yn bodoli o fewn yr asiantaeth. Mae gwiriadau ar waith i sicrhau bod y staff sy'n gweithio yn y gwasanaeth yn gymwys i ofalu am oedolion sy'n agored i niwed.

Mae'r cofnodion hyfforddiant yn dangos bod staff yn derbyn hyfforddiant digonol i wneud eu tasgau dyddiol a bod ganddynt sail gwybodaeth gadarn a phwyslais ar iechyd a diogelwch yr unigolyn.

Mae'r staff yn derbyn goruchwyliaeth reolaidd i sicrhau eu bod nhw'n derbyn cefnogaeth dda yn eu swyddi, ac yn cael eu galluogi i ddarparu gofal o safon uchel.

Dywedodd aelod staff ei fod yn hapus iawn i weithio yn y gwasanaeth, a'i fod yn cael ei gefnogi'n dda gan reolwyr sy'n hawdd mynd atynt ac yn rhagweithiol.

Ansawdd Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Ar y cyfan, mae'r gwasanaeth yn cael ei redeg yn dda, ac mae'r staff â'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn gallu dylanwadu ar yr ofal a roddir.

Mae cofnodion cyfarfodydd y staff yn dangos bod unrhyw broblemau, newidiadau o ran anghenion gofal, ac unrhyw syniadau newydd yn cael eu trafod yn agored. Mae'r canlyniadau o gyfarfodydd blaenorol yn cael eu trafod hefyd, sy'n dangos bod y staff yn gallu dylanwadu'n uniongyrchol ar y gwasanaeth a ddarperir, ac y gwrandewir ar eu barn. Fel y nodwyd yn gynharach, gofynnir yr unigolyn sy'n defnyddio'r gwasanaeth ynghylch ei farn o ran ei ofal hefyd, ac mae canlyniadau ac unrhyw gamau sydd i'w cymryd yn cael eu hychwanegu at y ffeil ofal.

Canfuom fod prosesau rheoli meddyginiaeth yn dda, gyda gwybodaeth ynglŷn â phob cyffur, ei ddiben, a'r sgil-ffeithiau yn cael ei chofnodi'n glir yn y ffeil ofal.

Mae'r asiantaeth yn nodi nodau ac amcanion y gwasanaeth yn glir yn y Datganiad o Ddiben a'r Canllaw i Ddefnyddwyr Gwasanaeth. Mae gan y person sy'n derbyn gofal â'r staff ddealltwriaeth glir o'r hyn y gellir ei ddisgwyl gan y gwasanaeth a chwmpas yr ofal a ddarperir.

Ansawdd yr Amgylchedd

Ni chaiff thema ansawdd yr amgylchedd ei harolygu yn y lleoliad gofal cartref gan fod y gwasanaeth yn cael ei ddarparu yng nghartref yr unigolyn ei hun.

Sut rydym yn arolygu gwasanaethau ac yn hysbysu am y canlyniadau

Rydym yn cynnal dau fath o arolygiad: sylfaenol a phwyslais penodol. Mae'r ddau yn ystyried profiad pobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau.

- Mae **arolygiadau sylfaenol** yn asesu a oes cyfiawnhad i gofrestrriad gwasanaeth ac a yw amodau'r cofrestrriad yn briodol. Ar gyfer mwyafrif y gwasanaethau, rydym yn cynnal yr arolygiadau hyn bob tair blynedd. Mae gwarchodwyr plant cofrestredig, gofal y tu allan i'r ysgol, gofal sesiynol, meithrinfeydd a darpariaethau mynediad agored, ar y llaw arall, yn derbyn arolygiad bob pedair blynedd.

Ar adeg yr arolygiadau hyn, byddwn yn sicrhau bod gan y gwasanaeth Ddatganiad o Ddiben eglur ac effeithiol a bod y gwasanaeth yn cyflawni'r ymrwymadau a nodir yn ei Ddatganiad o Ddiben. Wrth asesu p'un a oes cyfiawnhad dros gofrestrriad, mae arolygwyr yn sicrhau bod y gwasanaeth yn gallu dangos hanes o gydymffurfio â'r rheoliadau.

- Bydd **arolygiadau sydd â phwyslais penodol** yn ystyried profiad y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau, a byddwn yn edrych ar p'un a yw'r lleoliad yn cydymffurfio â'r rheoliadau pan nodir canlyniadau gwael ar gyfer y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau. Rydym yn cynnal yr arolygiadau hyn rhwng arolygiadau sylfaenol. Bydd arolygiadau sydd â phwyslais penodol bob amser yn ystyried ansawdd bywyd y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau a byddant o bosibl yn edrych ar feysydd eraill.

Gellid trefnu arolygiadau sylfaenol a rhai sydd â phwyslais penodol fel rhan o'r amserlen, neu eu cynnal mewn ymateb i bryderon.

Mae arolygwyr yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau i gasglu gwybodaeth yn ystod arolygiadau. Gallai'r rhain gynnwys:

- Siarad â phobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau a'u cynrychiolwyr
- Siarad â'r staff a'r rheolwr
- Edrych ar ddogfennau
- Arsylwi ar yr amgylchedd a'r ymadweithio rhwng y staff a'r bobl
- Edrych ar sylwadau a wnaed mewn holiaduron a ddychwelwyd gan bobl sy'n defnyddio gwasanaethau, y staff, a gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol.

Rydym yn arolygu ac yn hysbysu ynglŷn â'n canfyddiadau dan 'Themâu Ansawdd'. Cyfeirir at y rhai hynny sy'n berthnasol i bob math o wasanaeth yn ein hadroddiadau arolygu.

Ceir gwybodaeth bellach ynglŷn â'r hyn yr ydym yn ei wneud yn ein taflen 'Gwella Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru'. Gallwch lawrlwytho hon o'n gwefan, [Gwella Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru](#), neu fe allwch ffonio eich swyddfa ranbarthol leol AGGCC i ofyn i ni anfon copi atoch.